Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Cydymaith Ymchwil, Cyfrwng Cymraeg - Prosiect Datblygu a Gwerthuso Offeryn Gwyliadwraeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**
Ysgol:	**Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**
Lleoliad:	**Mae'r prosiect wedi ei leoli yng Nghampws Llandaf. Bydd y rôl hon hefyd yn cynnwys gweithio o bell ar draws Cymru.**
Gradd:	**6A/B**
Cyflog:	**£38,205 - £42,977 y flwyddyn**
Oriau:	**Llawn amser (bydd contractau ffracsiynol yn cael eu hystyried – gweler isod)**
Daliadaeth:	**Cyfnod Penodol (2 flynedd) Opsiynau secondiad ar gael.**

Crynodeb o'r Rôl:

Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu offeryn monitro datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar mewn plant yng Nghymru.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gasglu data sylweddol, gan gynnwys asesu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg a recriwtio cyfranogwyr. Byddant yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Uwch Gydymaith Ymchwil. Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Dyma'r ardaloedd casglu data tebygol: Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, ardal De-ddwyrain Cymru. Byddai contractau ffracsiynol yn cael eu hystyried i ganiatáu i ddeiliad y swydd casglu data dros ardal ddaearyddol lai e.e. Gogledd Cymru neu Dde Cymru yn unig. Byddai'n ofynnol i ddeiliad swydd llawn amser gasglu data ar draws pob ardal dynodedig.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Teithio ar draws Cymru i ymweld â chyfranogwr i gasglu data

2. Meithrin cysylltiadau â grwpiau rhanddeiliaid allweddol a fydd yn ddefnyddwyr yr offeryn gwyliadwriaeth a llwybrau recriwtio yn y dyfodol.

3. Cynnal gweithgareddau cyd-gynhyrchu gyda rhieni a chynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu'r offeryn gwyliadwriaeth ynghyd ag aelodau eraill o dîm y Prosiect.

4. Recriwtio teuluoedd ac ymarferwyr ar gyfer treialu fersiwn prototeip yr offeryn gwyliadwriaeth.

5. Cynorthwyo i fireinio'r offeryn yn seiliedig ar y treial cynnar. 6. Recriwtio cyfranogwyr ar gyfer casglu data normadol

6. Recriwtio cyfranogwyr i gasglu data normadol.

7. Datblygu, dylunio a rheoli casglu data ar gyfer y prosiect gydag aelodau eraill o dîm y prosiect.

8. Cyfrannu at y gwaith o ledaenu canfyddiadau ymchwil. Ysgrifennu adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau ar yr ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect. Lledaenu'r canfyddiadau trwy gyflwyniadau i randdeiliaid mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

MANYLEB Y PERSON

* Allwedd
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P/Cyfl - Prawf/Cyflwyniad

Teitl y Swydd: Cydymaith Ymchwil, Cyfrwng Cymraeg - Prosiect Datblygu a Gwerthuso Offeryn Gwyliadwraeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Ysgol/Uned: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C*	P/Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	• Gradd israddedig 2:1 neu uwch sy'n berthnasol i ddatblygiad plentyndod cynnar neu ieithyddiaeth.	Ff		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	• Therapydd iaith a lleferydd cofrestredig HCPC • Gradd ôl-raddedig ar lefel Meistr neu ddoethuriaeth mewn pwnc perthnasol • Aelodaeth o gorff proffesiynol.	Ff Ff Ff		
Gwybodaeth (Hanfodol)	• Gwybodaeth am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar plant. • Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun y mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru	Ff Ff	C C	
Gwybodaeth (Dymunol)	• Gwybodaeth am ddulliau ymchwil a dadansoddi sy'n berthnasol i'r astudiaeth • Gwybodaeth am y prosesau sydd ynghlwm wrth gasglu data normadol • Gwybodaeth am y rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â datblygiad	Ff Ff Ff	C C	

	lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar yng Nghymru			
Sgiliau a Galluoedd (Hanfodol)	• Y gallu i ymgysylltu a chysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol • Y gallu i ymgysylltu a chysylltu â rhieni a phlant • Y gallu i gynnal asesiadau o sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant • Y gallu i ddylunio prosesau ar gyfer recriwtio cyfranogwyr, casglu data a storio data • Y gallu i ddadansoddi data lleferydd, iaith a chyfathrebu a gasglwyd o'r offeryn gwyliadwriaeth. • Sgiliau dadansoddol ardderchog • Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir, ar lafar ac yn ysgrifenedig. • Yn gymwys yn y defnydd o Microsoft Office • Y gallu i ddefnyddio menter bersonol a chreadigrwydd i ddatrys problemau a wynebir yng nghyd-destun yr ymchwil. • Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.	Ff Ff Ff Ff Ff Ff Ff Ff Ff Ff	C C C P	
Sgiliau a Galluoedd (Dymunol)	• Gwybodaeth am becynnau meddalwedd ymchwil	Ff	C	

Profiad â Thâl/ Di-dâl (Hanfodol)	• Profiad o asesu datblygiad plant ifanc, yn enwedig lleferydd, iaith a chyfathrebu • Profiad o weithio i derfynau amser tynn • Profiad o ddadansoddi samplau lleferydd ac iaith plant	Ff Ff Ff	C C	 P
Profiad â Thâl/ Di-dâl (Dymunol)	• Profiad o weithio ar brosiectau ymchwil • Profiad o gefnogi prosiectau ymchwil cydweithredol a ariennir • Profiad o recriwtio cyfranogwyr. • Profiad o gyflwyno adroddiadau, cyflwyniadau cynhadledd a/neu gyhoeddiadau mewn cyfnodolion • Profiad o weithgaredd ymchwil hunan-arweiniol - dylunio, gweithredu ac adrodd ar ymchwil meintiol	Ff Ff Ff Ff Ff		
Gofynion eraill (Hanfodol)	• Y gallu i weithio'n hyblyg o ran patrwm gweithio • Y gallu i deithio ledled Cymru pan fo angen.	Ff Ff		
Gofynion eraill (Dymunol)				
Sgiliau Iaith Gymraeg **Gwrando** **Darllen** **Siarad** **Ysgrifennu** **(Hanfodol)**	**C1 – Defnyddiwr rhugl** Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	c1		